# Adroddiad Cyfarfod 13:03:24 Ifor ap Glyn

Ar Fawrth y 13eg fe ddathlodd Merched y Wawr Bethel Ddydd Gŵyl Dewi yng Nghaffi'r Bedol ym Methel.

Darparwyd gwledd flasus o gawl cennin neu lobsgows, a bara brith a chancennau cri gan wirfoddolwyr y caffi.

Ar ddechrau'r cyfarfod cawsom ychydig o newyddion lleol gan Jen Roberts ein Llywydd.

Anfonwydd ein llongyfarchiadau at Gwyneth Roberts ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf. Mae Rhys ei hŵyr, a'i bartner Llio wedi cael mab bach, sef Twm Morgan.

Hefyd, anfonwyd ein cydymdeimlad at un o'n cyn aelodau Ceinwen Williams a gollodd ei gŵr Eifion yn ddiweddar.

Ein gŵr gwadd i'n digwyddiad arbennig hwn oedd Ifor ap Glyn. Rydym yn adnabod Ifor yn fwy diweddar fel cyn Fardd Cenedlaethol Cymru.

Mae'n un o sefydlwyr Cwmni Da ac wedi ennill sawl gwobr am ei waith gan gynnwys 'Lleisiau'r Rhyfel Mawr' a 'Popeth yn Gymraeg'.

Ennillodd y Goron ddwywaith, yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 1999 ac yna Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych yn 2013.

Bu hefyd yn fardd Plant Cymru rhwng 2008 a 2009.

Gan i Ifor gael ei eni a'i fagu i rieni Cymraeg yn Llundain bu'n sôn cymaint a ddylanwadodd hynny ar ei agwedd tuag at y Gymraeg. Soniodd hefyd am ei wyliau gyda ei nain a'i daid yn Llanrwst a difyr iawn oedd yr hanesion hynny.

Bu'n darllen detholiadau o nifer o'i lyfrau y mae wedi eu cyhoeddi. Roedd ei berfformiadau yn ddiddanwch mawr i ni fel cynulleidfa.

Yn ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol Cymru rhannodd ei brofiadau o deithio i nifer o wledydd megys China a Lithiwania gan enwi ond ychydig o'i deithiau.

Cytunwydd iddo fod yn noson arbennig o ddifyr i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant.

Diolchwyd i Ifor gan Mair Read.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar y 10fed o Ebrill yn y Neuadd Bethel.